# CYFLWYNIAD

Ffrwyth ymchwil drwyadl boneddiges lariaidd yw'r gyfrol hon. Gwnaeth astudiaeth fanwl o'r testun, gan fwrw ati i waith ymchwil dan oruchwyliaeth Coleg y Brifysgol, Llanbedr Pont Steffan. Yn dilyn yr ymchwil, cyflwynodd ysgrif i'r arholwr a enillodd iddi y radd M. Phil., Prifysgol Cymru.

Hanes Achos Crist yng Nghapel Esgairdawe yw testun y llyfr. Peidiwch, felly, â disgwyl llawer o dudalennau sydd yn sôn am adeiladau, am gapel, am dŷ cwrdd. Mae'r awdures, yn naturiol, wedi crybwyll am bethau felly am fod man-cyfarfod y gynulleidfa yn rhan o'i hanes. Ond nid addoldy sy'n gwneud Eglwys, a pheth sarhaus a difrïol yw ystyried unrhyw adeilad megis yn Eglwys Crist.

Cynulliad o gredinwyr wedi eu galw gan Dduw sy'n gwneud Eglwys. Gwelir ei hanfod yng nghymundeb anweledig ac ysbrydol y saint. Corff ysbrydol Iesu Grist ydyw, ac yn hanfod ei natur mae'n cynnwys credinwyr pob oes, a neb arall, ac fe gynnwys y saint sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Ond ehangder y llyfr hwn yw'r cwmwl tystion sydd wedi ymgynnull ers dros dri-chan mlynedd yng nghapel bach Esgairdawe.

Dynes o bersonoliaeth ddiymhongar yw Mary Eunice Williams, un sydd yn ddyledus i ddylanwadau da ei theulu arni, i rymustra lluniol ei bro, ac i belydrau iachus rhinwedd a moes bywyd capel – Capel Esgairdawe, cartref Eglwys yr Annibynwyr Cymraeg ar yr esgair hwnnw i'r gogledd o bentref Llansawel, yng ngorllewin sir Gaerfyrddin.

Cafodd yr awdures gyfle da i elwa o weinidogaeth faith a grasol y Parchedig Giraldus Jones, a hyfryd iawn yw gweld bod y gyfrol yn gyflwynedig i'w chynweinidog a'i briod. Bu ef yn

gyfrwng da i'w dwyn dan ddylanwadau gorau Anghydffurfiaeth ac Ymneilltuaeth Cristnogol Cymraeg.

Yn sicr, mae ganddi y cymwysterau gorau i ysgrifennu hanes yr Eglwys hon, gan iddi, ar hyd ei hoes, fod yn un o'r addolwyr ffyddlonaf. Mae yn aelod, yn ddiacon, yn organyddes, yn gyn-ysgrifenyddes ac yn un o bileri y ddiadell fach. Mae yn fraint ac yn anrhydedd i mi, i gael cyflwyno i chwi y gyfrol safonol.

Athrawes oedd Mary Eunice wrth alwedigaeth, a hi oedd prifathrawes olaf Ysgol Esgairdawe. Hi yw awdures "Hanes Ysgol Esgerdawe", – campwaith a enillodd iddi y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.

Mawr yw ein dyled iddi, a mawr fydd dyled pawb a fydd eto am groniclo hanes y bröydd hyn. Mynegaf ein diolch i'r awdures, a pharhaed ei gweithgarwch.

HYWEL T. JONES,
*Silian, Llanbedr Pont Steffan.*

# I

# PALMANTU'R FFORDD A CHERDDED YMLAEN

**Cefndir yr Hanes**

Saif capel presennol Esgairdawe ym mhlwy Pencarreg, ar ochr y ffordd sy'n arwain o Lansawel i'r groesffordd gerllaw Tafarn Jem, yn yr hen sir Gaerfyrddin. Capel Annibynnol ydyw, ac fel y pentref, cafodd ei enwi yn ôl ei leoliad. Mae 'esgair' yn dynodi 'trum' neu 'gopa', a Tawe yw'r afonig fechan a lifa'n araf drwy'r cwm islaw. Yn wir, rhydd yr enw tlws yma, sef Esgairdawe neu Esgerdawe ar lafar gwlad, bortread perffaith o'r hyn a welir, sef bryniau gydag afon yn rhedeg drwy'r dyffryn.

Er mwyn cael hanes y capel yn gyflawn, rhaid mynd yn ôl at y gwreiddiau, oherwydd dechreuwyd yr Achos Annibynnol yn y cylch yn y flwyddyn 1690. Felly, gellid dathlu tri chan mlwyddiant yr Achos ym 1990. Mae'n wir fod pobl yr ardal yn addoli yn y trydydd adeilad oddi ar y flwyddyn 1844, ond nid adeilad yw Eglwys – cynulleidfa neu gymdeithas o gydaddolwyr ydyw.

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, cafwyd nifer o gyfnewidiadau crefyddol. Pan ddaeth Elisabeth y cyntaf i'r orsedd, ceisiwyd cael y Protestaniaid a'r Catholigion i gyd-addoli mewn Eglwysi Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fedrai llawer o'r Protestaniaid gytuno â'r ddefodaeth Gatholig. Y Piwritaniaid oedd y rhain. Arhosodd llawer ohonynt yn yr Eglwys, ond ymadawodd nifer helaeth i sefydlu enwadau crefyddol eraill. Fe'u gelwid yn Ymneilltuwyr neu Annibynwyr. Pan orseddwyd Siarl yr ail ym 1660, cafodd y Piwritaniaid i gyd eu gorfodi i adael yr Eglwys. Dyna'r 'Troad Allan'.

Mae hanes y Fam Eglwys, sef Esgairdawe, a'r Ferch, sef Ffaldybrenin, ynghlwm wrth hanes Bwlch-y-rhiw a Chrug-y-bar.

Ym 1660, enciliodd y crefyddwyr i Fwlch-y-rhiw, yn unigeddau Cwmcothi, er mwyn cael llonydd i addoli yn eu ffyrdd eu hunain, heb neb na dim i aflonyddu arnynt. Cyfnod cynnar Ymneilltuaeth ydoedd, a'r erlidwyr a'r erledigaethau yn fawr a lluosog, ond yn ystod y ganrif, bu deffro mawr ymhlith y crefyddwyr hyn. O ganlyniad, yn ogystal ag erledigaeth, daeth gormes a chyfreithiau er mwyn rhwystro hynt yr egwyddorion newydd.

Ceir hanes am bedair deddf a basiwyd o fewn pedair blynedd, a'r cyfan yn uniongyrchol yn erbyn yr Anghydffurfwyr, y rhai a ddymunai ffurfio eglwysi rhyddion, y tu allan i'r Eglwys. Cyfeirir at y deddfau hyn fel 'Deddf-res Clarendon'. Dyma'u henwau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| a. | Deddf y Corfforaethau | — | 1661 |
| b. | Deddf Unffurfiaeth | — | 1662 |
| c. | Deddf y Cyrddau | — | 1664 |
| ch. | Deddf y Pum Milltir | — | 1665 |

a. O dan *Ddeddf y Corfforaethau* 'roedd yn rheidrwydd ar swyddogion trefol i gyfranogi o'r Sacramentau Anglicanaidd, a datgan llw fod gwrthsafiad arfog yn erbyn y brenin yn anghyfreithlon.

b. Gyda'r *Ddeddf Unffurfiaeth,* disgwylid i'r gweinidogion crefyddol ddefnyddio'r Llyfr Gweddi Diwygiedig a chael eu hordeinio gan esgob Anglicanaidd.

c. *Deddf y Cyrddau* – Gwaherddid cynulliad o fwy na phedwar person rhag addoli mewn unrhyw le heblaw eglwys y plwy, yn ôl yr arferiad Anglicanaidd.

ch. *Deddf y Pum Milltir* – Ei gwneud yn anghyfreithlon i weinidog Anghydffurfiol fyw o fewn pum milltir i dref gorfforaethol nac ychwaith i gynnal ysgolion.

Roedd y deddfau hyn ar gyfer Catholigion yn ogystal â Phrotestaniaid. O ganlyniad i'r rhain, gorfu i weinidogion Anghydffurfiol ddianc i'w cuddfannau, gan barhau gyda'r gwaith bugeiliol yn y dirgel. Torrodd rhai eu calonnau gyda'r erlid creulon, ond dal ati a wnaeth y gwir Anghydffurfwyr. Collodd nifer o weinidogion eu bywoliaethau rhwng 1660 a 1662. Eithr, ar waethaf y deddfau hyn a'r erledigaethau, methwyd â rhoi taw ar alwad yr Efengyl nac ar yr Anghydffurfwyr teyrngar. Yn sir Gaerfyrddin, fel yn y gweddill o Gymru, Annibynwyr a Bedyddwyr oedd y mwyafrif o'r Piwritaniaid. Ychydig oedd rhifedi'r Presbyteriaid. Ym 1689, penderfynodd y tri enwad yma, y rhai a fu'n gyd-ddioddefwyr

am lawer blwyddyn, dynnu'n nes at ei gilydd i gryfhau eu hachos. Gyda hyn, ym 1690, ffurfiwyd yr 'Happy Union' yn Llundain rhwng yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid. Sefydlwyd cronfa a weinyddid gan Fwrdd cydweithredol. Pwrpas y gronfa oedd hyfforddi myfyrwyr ar gyfer y weinidogaeth Anghydffurfiol, cynorthwyo gweinidogion anghenus ac eglwysi gweinion a lledaenu pregethiad yr Efengyl.

Yn y cyfamser, wedi lleihau o'r peryglon, ymadawodd yr Annibynwyr â Bwlch-y-rhiw am ardal Crug-y-bar, a hynny ar ôl 1662. Mae'n debyg mai eglwys gymysg o Annibynwyr a Bedyddwyr oedd ym Mwlch-y-rhiw ac mai o ardal Crug-y-bar y daethant i ddechrau. Addolent yn unigeddau Cwmcothi, ac fe ddywedir mai ym 1688 y dychwelodd yr Annibynwyr i Grug-y-bar a sefydlu Eglwys yno. Arhosodd y Bedyddwyr ym Mwlch-y-rhiw, sydd ym mhlwy Cilycwm, ger ffin plwy Caeo. Maent wedi parhau i addoli yno hyd heddiw a dichon i'r arloeswyr cynnar gael noddfa oherwydd natur yr amgylchedd:

> Gerllaw y Capel, yng nghanol aruthredd rhamantus, y mae craig a orchuddir gan goed derw, a elwir Craig yr Eglwys. Dywed traddodiad lleol fod yr Ymneilltuwyr wedi bod yn addoli yng nghysgod y graig hon yn nyddiau'r erlid creulon.[1]

Parhau i addoli mewn mannau cuddiedig a wnâi'r Anghydffurfwyr am flynyddoedd lawer. Bu rhai yn addoli mewn ogofau:

> From these bitter days have come the traditions of the Cwmhwplin cave near Pencader, associated with the itinerant ministry of Stephen Hughes, and those of the Craig-y-Wyddon retreat on the Brecon border, associated with the saintly school-master and later ordained Independent minister, Rhys Prydderch of Ystrad Wallter, Llandovery. It was in sequestered spots like these that the undaunted Puritan remnants of Carmarthenshire foregathered, often from long distances, to worship God according to their own convictions.[2]

Yn ogystal, addolai'r crefyddwyr dewr mewn bythynnod anghysbell, ffermdai, ysguboriau a lleoedd neilltuedig. Roedd y cosbau am addoli'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac o ardal i ardal. Dyma rai enghreifftiau ohonynt:

a. Carcharu am gyfnod.
b. Alltudio i blanigfeydd India'r Gorllewin ar ôl y trydydd cyhuddiad.
c. Cosb ariannol drom.

Ar waetha'r cosbau erchyll, nid rhai i ddigalonni'n hawdd oedd y crefyddwyr cynnar hyn. Deuent, ambell dro, i gwrdd â'i gilydd i wneud trefniadau pwysig. Credir mai dyma'r rheswm i Eglwys Crug-y-bar gael ei ffurfio mor gynnar. Dichon fod yna nifer o bobl gyda brwdfrydedd ac argyhoeddiad dwfn, a chyda Deddf Goddefiad 1689, cynyddodd nifer yr Anghydffurfwyr yn gyflym. Rhoddodd hon ryddid iddynt i addoli'n gyhoeddus, – ar wahân i'r Catholigion a'r Undodiaid, y gosodid arnynt amod bod eu haddoldai yn cael eu trwyddedu a'r drysau'n ddatglo yn ystod y gwasanaethau.

Bu'r datblygiadau hyn yn fodd i feithrin symbyliad a gweledigaeth yng nghalon un o addolwyr Crug-y-bar i gychwyn cangen yn Esgairdawe. Oni bai am hyn, go brin y byddai Eglwysi Esgairdawe a Ffaldybrenin yn bod heddiw.

**Cychwyn yr Achos**

O ganlyniad i Ddeddf Trwyddedu 1672, daeth ychydig ryddid i Ymneilltuwyr drwyddedu eu tai ar gyfer addoli yn eu dull eu hunain. Manteisiodd llawer arloeswr ar y cyfle. Yn eu plith 'roedd Daniel Harry, perchen Esgairowen, fferm ym mhlwy Pencarreg. Roedd ef yn ddiacon yng Nghrug-y-bar, ac yn ôl tystiolaeth lafar, cododd drwydded pregethu ar ei dŷ neu ei ysgubor. Dyma'r hyn a geir yn *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru:*

> Darfu i Daniel Harry, Esgairowen, drwyddedu ei dŷ at bregethu yn 1690, a chyn hir ffurfiwyd yno eglwys, a thorrodd Crofftycyff ac Esgairdawe yn ddwy gainc allan o honi, y rhai hyd yn ddiweddar mewn cydmariaeth a ystyrid yn un eglwys.[3]

Deuai pregethwyr achlysurol i Esgairowen o dro i dro. Yn y rhan uchaf o sir Gaerfyrddin nid oedd yr Ymneilltuwyr yn niferus iawn. Roedd y gweinidogion yn anaml hefyd. Roeddent yn ymweld yn fisol â llawer o gapeli a thai annedd. Bu'r Parchedigion James Lewis, Pencader; John Powell, Tredwstan a Lewis Richards, Tre-lech yn gwasanaethu'n fynych yn Esgairowen.

Cynhelid cyfarfodydd gweddi yno hefyd. Trigai pobl grefyddol yn y fro. Byddai rhai ohonynt yn adrodd pregethau ar brynhawn Saboth, ar ôl bod yn gwrando ar weinidogion yn eu traethu ym Mhencader a mannau eraill yn y bore. Mae'n amlwg fod gan rai o'r brodorion gof eithriadol a sêl ang-

hyffredin tuag at yr Achos cynnar hwnnw. Parhawyd i addoli yn Esgairowen am drigain a chwech o flynyddoedd.

Wedi hynny, bu datblygiad hanesyddol ymhlith yr addolwyr. Daeth cyfle i godi adeilad ar eu cyfer. Yn y flwyddyn 1754, rhoddodd gŵr o'r enw John James, perchen fferm Esgerdawe y pryd hwnnw, brydles o fil namyn un o flynyddoedd ar ddarn o'i dir er mwyn codi tŷ cwrdd. Fe'i hadeiladwyd, ond, ysywaeth, ni wyddom sut y dygwyd y defnyddiau ynghyd na phwy a fu'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith. Gelwid ef yn 'Hen Dŷ Cwrdd'.

Yn y cyfamser, dechreuwyd achos crefyddol yng Nghrofft-y-cyff, neu Lofft-y-cyff, gerllaw'r Gelli, Llan-y-crwys, a dyna ddechreuad Ffaldybrenin. Nid oes gennym wybodaeth bendant ymha flwyddyn y bu hynny, ond credir ei fod yn addoldy hynafol, cyn 1700. Mae'n debyg mai'r un gweinidogion a fu'n llafurio yng Nghrug-y-bar ag a blannodd yr achos yng Nghrofft-y-cyff. Felly, dwy gainc a ddaeth allan o Grug-y-bar oedd Esgairowen a Chrofft-y-cyff. Cyfrifir Crug-y-bar fel mam holl Eglwysi Ymneilltuol y cylch.

**Gweinidogion Eglwys Esgairdawe cyn 1900**

Dyma enwau'r saith gweinidog a fu'n gwasanaethu yma, ynghyd â'u cyfnodau:

| | |
|---|---|
| Owen Davies | 1743 – 1767 |
| John Tibbot | 1767 – 1785 |
| Howell Powell | 1786 – 1789 |
| David Morgan | 1789 – 1810 |
| Thomas Jones | 1810 – 1814 |
| | neu 1811 – 1816 |
| Rhys Jones | 1818 – 1858 |
| Henry Jones | 1859 – 1899 |

Nid drwg fyddai cyfeirio'n fras at hanes y gweinidogion hyn, gan gynnwys rhai o'r digwyddiadau a'r cyfnewidiadau yn ystod eu gweinidogaeth.

**Owen Davies**

Ganed Owen Davies ym 1720, yng Nglan-dŵr, coty yn gysylltiedig â'r pandy ar dir Erwyon neu Erwion ym mhlwy Llan-y-crwys. Pannwr oedd ei dad. Derbyniwyd Owen yn aelod yng Nghrofft-y-cyff, a dechreuodd bregethu yno ym 1739, pan oedd yn bedair ar bymtheg oed. Ym 1743, cafodd ei urddo yn

weinidog cyntaf Crofft-y-cyff ac Esgairowen, ac ar ôl hynny, Esgairdawe, sef yr Hen Dŷ Cwrdd. Gŵr ifanc tair ar hugain oed ydoedd. Dyma fel y cofnodir yr amgylchiad yn 'Ledger' John Davies, clocswr o Heol y Bont, Llambed:

> 1765. A Register Book belonging to the Church of Christ at Esgairdawe and Crofftycyff, under the pastoral care of Owen Davies, who began to preach in the year 1739, was ordained October 7th, 1743 at Crofftycyff, by fasting and prayer, and laying on of the hands of the Presbytery, who were the Revds. James Lewis, Phillip Pugh, Christmas Samuel, John Harries, Thomas Morgan of Llanwrtyd, John Lewis, Owen Rees.[4]

Ar yr un diwrnod, urddwyd Mr. James Davies, Abermeurig, fel y gallai gynorthwyo Phillip Pugh ym maes eang ei weinidogaeth. Cofir am Phillip Pugh fel un o'r rhai a frwydrodd yn galed i achub Anghydffurfiaeth yng Nghymru yn ystod erledigaethau Cyfnod yr Adferiad. Ganed ef yn yr Hendre, Blaenpennal, sir Aberteifi. Derbyniodd ei addysg yn Academi Brynllywarch, o dan gyfarwyddyd Samuel Jones, ac yn ddiweddarach, yn y Fenni. Urddwyd Phillip ym 1709 a bu'n gweinidogaethu yn eglwysi Llwyn-Rhys, Abermeurig, Cilgwyn, Caeronnen a Chrug-y-maen.

Llafuriodd yn ddygn dros iawnderau ac egwyddorion yr Ymneilltuwyr. Roedd yn bregethwr enwog, yn traethu'n huawdl ac yn arbenigwr ar drefniadau eglwysig, Annibynnol. Teithiodd i lawer rhan o Gymru a bu'n fendith i achos crefydd yn gyffredinol. Bu farw ar Orffennaf 12fed, 1760 a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys Llanddewibrefi.

Fel mater o ddiddordeb, teg yw cofnodi enwau'r rhai a fu'n gwasanaethu yng Nghrofft-y-cyff cyn 1743, – Dr. David Jenkins, Crug-y-maen; Christmas Samuel, Pant-teg; John Harries, Capel Isaac; Phillip Pugh, Llangeitho a Timothy Davies, Felindre. Dichon iddynt gynorthwyo'r saint yn Esgairowen hefyd.

Yn ystod gweinidogaeth y Parchedig Owen Davies y symudodd yr eglwys o Esgairowen i'r Hen Dŷ Cwrdd. Tybed beth oedd natur yr ymddiddan rhwng y Cristnogion cynnar hynny wrth symud o un lle i'r llall. Diddorol fyddai gwybod pa un ai tristwch, ynteu llawenydd oedd testun eu cân a'u myfyrdod. Mae'n amlwg fod ambell un, megis Daniel Harry, Esgairowen a John James, Fferm Esgerdawe wedi dangos caredigrwydd ymarferol wrth drefnu a phalmantu'r ffordd, er

mwyn sicrhau lle i'r werin bobl gydaddoli. Diau eu bod hwythau'n gwerthfawrogi ffydd a gweledigaeth y ddau ohonynt. Dyma'r cofnod a welir ynglŷn â chofrestru'r Hen Dŷ Cwrdd:

> Esgerdawe meeting house was recorded at Llandeilo Vawr and was opened November the 7th, 1756 when a sermon was preached from John 4th – 20-24.[5]

Dyma destun y bregeth gyntaf yn y capel hwnnw:

> Ein tadau a addolasant yn y mynydd hwn; ac yr ydych chwi yn dywedyd mai yn Jerusalem y mae y man lle y mae yn rhaid addoli. Iesu a ddywedodd wrthi hi, O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem. Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch: ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon. Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd: canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef.
> Yspryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd.

Ni wyddom beth oedd cynnwys y bregeth honno, ond gwyddom i'w dylanwad gerdded ymhell.

Ystyrid Owen Davies yn ŵr duwiol. Pregethai'n gymeradwy, bugeiliai'n ffyddlon ac fe'i perchid gan bawb. Pan gofiwn nad oes hanes iddo erioed ddilyn cwrs diwinyddol mewn Coleg, mae'n syndod iddo lwyddo cystal yn ei waith gweinidogaethol. Roedd yn ysgolhaig da yn ei gyfnod a chadwai ysgol i fechgyn ifainc. Nid oes sicrwydd ymhle y cynhelid yr ysgol, ond ymysg y rhai a fu'n ddisgyblion iddo, 'roedd William Llwyd, o Henllan, plwy Caeo. Fe ddaeth ef yn un o weinidogion enwocaf y Methodistiaid yn y ddeunawfed ganrif. Disgybl arall i Owen Davies oedd David Griffiths, o Wynfe – un o genhadon cyntaf Madagascar.

Bu Owen Davies, y gweinidog cyntaf, yn yr ofalaeth am bedair blynedd ar hugain.

> Llafuriodd yn gymeradwy fel gweinidog ac ysgolfeistr hyd 1767, pryd y galwyd ef i Gapel y Graig, Trelech. Bu yno'n dra llwyddiannus am ugain mlynedd.[6]

Yno hefyd y bu farw ym 1792 yn 72 mlwydd oed.

Gweinidogion yr Efengyl, fel rheol, oedd yn llofnodi ewyllysiau trigolion yr ardal. Dyma gofnodion sy'n profi hynny:

Owen Davies (minr) signs will of Dd. Samuel (Gwarcoed), Pencarreg, 1763.
Owen Davies (minr) signs will of Wm. Davies, Pencarreg in 1764.[7]

Dyma gyfeiriad ato pan oedd yn gweinidogaethu yn Nhre-lech:

Rev. Owen Davies, guardian to Godfrey Thomas (mk) (Parkybedw) Trelech, 1779.[8]

Wele ddau gofnod o fedyddiadau a gyflawnodd yn Esgairdawe:

Elinor the daughter of Morgan Williams was Baptized December 17th. 1763 at Rhydlydan parish of Cayo.
By Owen Davies
William the son of John Williams of Pantyvid was Baptized Jan. ye 5th 1766.
By ye Revd. Mr. Owen Davies.[9]

Dyma gofnodion diddorol eraill:

4th. Nov. 1765, John Matthew had a call by ye Brethren to exercise his gifts to preach the Word of God occasionally at Esgair Dawe. March ye 13th 1766. Thomas David, David Matthew + John Matthew were chosen at Esgairdawe to be Ruling Elders in the Church.[10]

Mae rhai o'r cofnodion yn debyg i'r rhai a geir yn y 'Llyfrau Cosb' a welir yn ein hysgolion dyddiol. Dyma enghreifftiau:

William John, John Harry, Thomas William Evan, James Thomas, David David and William Thomas were regularly admitted Members, but they are to be looked upon as backsliders, as likewise John Edwards, David Jenkin, Lewis Griffiths, David and John Williams. I heartily wish they may be recovered by Ye Power of Divine Grace.
Esther William, October 31st 1752, she committed Fornication and professed her Repentance. I wish it may be sincere.
Esther Morgan, April 24th 1757 was excommunicated for Fornication and there is no sign of her recovery.
November ye 1st 1765. John Thomas being a Ruling Elder was overtaken with Drunkness several times of late and neglect to attend ye publick Worship. May the Lord see over him by his True Grace and preserve him from total apostasy.
Margaret William Jenkin who at present being Nov 1765 is under some Token of God's Displeasure, may Ye Lord Look in Mercy upon her. She labours under a Melancholic Frenzic of Spirit.
Mary Edwards ye wife of John Edwards after unbecoming behaviour in our Church has conformed and is now in Communion in ye Parish Church.[11]

Dengys y rhan fwyaf o'r cofnodion uchod fod y praidd yn afreolus a bod angen eu dwyn i sylw'r Arglwydd.

Yn olaf, dyma ddau gofnod pwysig:

> Evan Rees, Evan John, Morgan Williams – Deacons
> David Rees, John Thomas, Evan Simon, Thomas David – Ruling Elders.[12]

Pan ymadawodd y gweinidog hwn ag Esgairdawe, dyma'r hyn a ysgrifennir ynglŷn â'i ryddhau:

> The Revd. Mr. Owen Davies had a dismission as a member and Pastor of ye Church of Christ at Esgair Dawe, upon condition if he would come occasionally to visit them and administer among them. The Dismission was given ye 23rd August 1767.[13]

**John Tibbot**

Ni fu Eglwys Esgairdawe yn hir cyn cael olynydd i'r Parchedig Owen Davies. Ganed John Tibbot ym mhlwy Llanbryn-mair ym 1734. Fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Eglwys Annibynnol yno. Am rai blynyddoedd, bu'n cynorthwyo rhagflaenydd ei frawd, gweinidog yr Eglwys honno, sef y Parchedig Lewis Rees. Yna fe urddwyd Richard Tibbot, brawd John yn weinidog yno.

Ym 1767, cafodd John Tibbot alwad i sir Gaerfyrddin, i fugeilio'r praidd yn Esgairdawe a Chrofft-y-cyff. Ordeiniwyd ef yn Esgairdawe, a dyma'r hyn a geir yng Nghofrestr yr Eglwys:

> The Revd John Tibbot was ordained at Esgairdawe the 5th of Novbr. 1767.
> The ministers who attended were
> The Revd Messrs. Timothy Davies, Cilgwyn
> Thomas Davies, Llanybri
> Lewis Lewis, Pencader
> Thomas Williams, Mynyddbach
> John Griffiths, Glandwr
> Richard Tibbot, Llanbrynmair
> Isaac Price, Llanwrtyd
> Thomas Davies, Pant-teg
> Owen Davies, Trelech
> The candidate preached on the 4th day. Mr. Thomas Davies of Pant-teg opened the meeting the 5th day. Mr. Richard Tibbot preached the Ordination Sermon. Mr. John Griffiths proposed the questions and received the confessions. Owen Davies prayed the Ordination Prayer and Mr. Timothy Davies gave the charge.[14]

Bu Mr. Tibbot yn weinidog ymdrechgar yn yr eglwysi am

ddeunaw mlynedd. Hunodd yn sydyn ar fore Sul, Chwefror 6ed, 1785 yn 51 mlwydd oed:

> Bu ef farw wrth fynd adre fore Saboth o Esgairdawe gerllaw'r fan lle mae addoldy newydd Esgairdawe, yr hwn a adeiladwyd yn 1844, ar dir John Johns, Ysw. Dolaucothi.[15]

Y bore hwnnw, pregethodd yn yr Hen Dŷ Cwrdd ar 'Drysorau'r Nef'. Fe'i claddwyd ym mynwent plwy Pencarreg. Dywedir ei fod yn bregethwr da, yn weinidog doeth, yn ddyn cywir a diwyd ac o ymarweddiad sanctaidd. Ym 1774, o dan ei weinidogaeth ef, rhifai aelodau Eglwys Esgairdawe 160. Roedd yr Achos yn gryf a llewyrchus.

Mab iddo oedd y Parchedig Abraham Tibbot (1752-1808), a aeth yn weinidog i Ros-y-meirch, yr Achos Ymneilltuol hynaf yn sir Fôn. Nid oedd John Tibbot yn meddu ar ddoniau poblogaidd ei fab, nac ychwaith ar allu cyhoeddus ei frawd, ond fe'i cyfrifid yn weinidog da i Iesu Grist.

**Howell Powell**

Ychydig iawn o hanes y gweinidog hwn sydd ar gael. Roedd yn aelod ym Mrych-goed, Brycheiniog, ond symudodd i'r ardal hon rai blynyddoedd cyn dod yn weinidog ar yr eglwysi. Urddwyd ef eto yn Esgairdawe, a hynny ar Fehefin 13eg, 1786. Mae'n debyg bod pedwar ar ddeg o weinidogion yn bresennol.

Dim ond am ychydig dros dair blynedd y bu'r Parchedig Howell Powell yn gweinidogaethu yma. Symudodd i Langatwg, Crughywel ym 1789. Oddi yno aeth i Gasnewydd ac yna i'r Maerdy. Wedyn, cododd ar ei adain ac aeth i'r Amerig, lle bu farw. Ceir hanes ei fod yn un o'r pregethwyr gorau a fu yng Nghymru, yn y cyfnod hwnnw, a bu'n golled i'r Eglwysi Cymreig iddo adael gwlad ei enedigaeth.

**David Morgan**

Roedd David Morgan, mab Morgan Rhys o'r Dolaugwyrddion, ger Llambed yn aelod o Eglwys Rhyd-y-bont. Ganed ef ym 1755 ac yn Rhyd-y-bont y dechreuodd bregethu. Pan oedd yn 34 mlwydd oed, derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar yr eglwysi yma. Urddwyd ef yn Esgairdawe ar Awst 6ed, 1789, yn yr un flwyddyn ag yr ymadawodd y Parchedig Howell Powell.

Nid drwg fyddai rhoi hanes y gwasanaeth urddo:

The ministers that attended were

Jn*o* Griffiths Glandwr
Jn*o* Richards Trefgarn
Tho*s* Davis Pant-teg
Will*m* Gibbon Mynyddbach
D*d* Williams Disgwylva
Jn*o* Davis Alltwen
Jn*o* Jones Rhydybont
Philip Maurice Ebenezer
Jn*o* Phillips Bethel
Jn*o* Griffiths Abergaveny
Tho*s* Thomas Pentretygwyn
Daniel Lewis Cwmmawr
Howel Powell Llangattwg
Morris Williams Glyntawe
David Davis Cidwely
David Davis Drevach
James Rees

Jn*o*. Phillips opened the meeting. Jn*o*. Griffiths Abergavenny prayed, Jn*o*. Jones received the confession and asked the questions. Jn*o*. Griffiths Glandwr prayed the ordination prayer. Jn*o* Davis gave the charge from 1. Thessal. 5ch – 13v. Jn*o* Richards preached a practical sermon from Acts 11ch – 23v. and concluded the service. And in the conference all the above ministers signed a certificate.[16]

Dyma destun y Siars:

A gwneuthur cyfrif mawr ohonynt mewn cariad er mwyn eu gwaith. Byddwch dangnefeddus yn eich plith eich hunain.

Tybed a oes yma awgrym nad oedd yr amgylchiadau mor ddymunol ag y dylent fod yn cyfnod hwn. Dyma destun y 'practical sermon':

Yr hwn pan ddaeth, a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd.

Ceir enwau trigain ac un o aelodau a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd ordeinio'r Parchedig David Morgan, ynghyd â thrigain a dau a dderbyniwyd wedi hynny. Yn ogystal â bod yn weinidog ar Esgairdawe a Chrofft-y-cyff, ef oedd â gofal Eglwys Gwernogle. Aeth i fyw i le o'r enw Pantyfedwen, ger Llanybydder. Golygai hynny ei fod yn anghyfleus iawn i'w ofalaeth, ond ymdrechodd yn galed i fynd at ei gyhoeddiadau ar bob tywydd. Roedd yn ŵr doeth, yn bregethwr syml, diffuant

a chadarn yn yr ysgrythurau. Gweithiodd yn galed ym maes ei weinidogaeth hyd at ei farwolaeth ar Chwefror 26ain, 1810. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parchedigion M. Jones, Trelech a T. Phillips, Neuadd-lwyd.

Gan fod Esgairdawe a Chrofft-y-cyff yn cael eu cyfrif fel un eglwys yn y dyddiau cynnar, teg yw nodi un newid hanesyddol a ddigwyddodd yn ystod gweinidogaeth David Morgan. Symudwyd o Grofft-y-cyff i'r Hendy, Ffaldybrenin ym 1792. Am fod yr adeilad hwn yn y pentref, gwelwyd ei fod yn fwy cyfleus i'r mwyafrif o'r aelodau. Buont yn addoli yno am ddeugain a dwy o flynyddoedd.

Mae'n syndod mai yn Saesneg y ceir y cofnodion i gyd am y blynyddoedd cynnar hyn. Er hynny, nid oes tystiolaeth fod y gwasanaeth, na rhan ohono, yn cael ei gynnal yn yr iaith honno. Ni cheir unrhyw awgrym fod y 'Welsh Not' mewn grym o fewn yr eglwysi fel yr oedd yn yr ysgolion. Beth bynnag a ddywedir am yr iaith, yr hyn sy'n peri mwy o syndod, efallai, yw'r ffaith fod gweinidog newydd yn cael ei urddo mor fuan ar ôl ymadawiad ei ragflaenydd. Dim ond bwlch o ychydig fisoedd a geir rhwng rhai ohonynt. Mae'n amlwg fod gan yr awdurdodau crefyddol ryw ffordd arbennig o hysbysebu'r meysydd gwag yn y cyfnod hwnnw. Roedd y *Tyst* yn un cyfrwng i roi gwybodaeth drwy Gymru gyfan. Felly, hawdd deall paham y deuai ambell weinidog o'r gogledd i wybod am eglwysi gwag y de. Er nad oedd llawer o gyfleusterau teithio, yn wahanol i heddiw, gwneid ymdrech i gyrraedd y mannau mwyaf pellennig, ar droed neu drwy farchogaeth rhyw gel ufudd a chyhyrog neu geffyl haearn.

Byddai'r gweinidogion cynnar yn gwasanaethu yn eu cylchoedd, pell ac agos, yn ôl yr angen. Ceir hanes am Gymanfa Bregethu a gynhaliwyd yng Nghrug-y-bar ar ddydd Mercher a'r dydd Iau olaf o Fehefin, 1809. Perthnasol yw cyfeirio at un ffaith ddiddorol cyn tewi am David Morgan. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi ar fore Mawrth cyn y Gymanfa. Ei bwrpas oedd gofyn am fendith yr Arglwydd ar y Gymanfa. Pregethwyd gan y Parchedig David Morgan ar y testun, 1. Thessaloniaid: 5.17:

> Gweddïwch yn ddibaid.

Hefyd diddorol yw cofnodi cymal o Ewyllys David Lloyd, Pistyllgwyn, Llansawel:

25th. Nov. 1805.
To David Morgan Minister of the Protestant Dissenters at Eskerdawe Meeting house p. Pencarreg – £50 upon Trust put in Securities... Interest – to pay a Teacher or Teachers of a Welsh Charity School + Schools within several parishes... and for buying Welsh Books for use of such poor children.[17]

## Thomas Jones

Nid oes sicrwydd o ble y daeth Thomas Jones. Yn ôl rhai, brodor o Fiwmaris ydoedd, neu ei fod yn weinidog yno cyn symud i'r cylch hwn. Dywed eraill ei fod yn enedigol o ardal Hawen. Mae amheuaeth hefyd ynglŷn â'r flwyddyn y dechreuodd ar ei weinidogaeth yma – pa un ai 1810 ynteu 1811 ydoedd. Ond, yng Nghofrestr Bedyddiadau'r Eglwys, ceir y cofnod hwn:

1. John Lewis Jones son of Thos. Jones Dissenting Minister at Esgardawe by Margaret his wife – bap. Jan. 2nd 1811.
by Jonathan Jones
Rhydybont

Felly, mae'n bosibl iddo ddod yma ar ddiwedd 1810 neu ddechrau 1811.

Wedi iddo gychwyn ar ei weinidogaeth ac ymgyfarwyddo â'r fro, cafodd wahoddiad i bregethu, unwaith y mis, yng Nghaeronnen, ger pentref Cellan. Yn ôl yr hanes, dechreuodd rhai gwyno, oherwydd tybient ei fod yn pregethu yn rhy Galfinaidd; felly fe'i trowyd oddi yno. Er hynny, 'roedd rhai yn derbyn ei athrawiaeth a ffurfiasant hwy eglwys yng Nghapel Erw ym 1811. Bu Thomas Jones yn gweinidogaethu yno am gyfnod byr.

Ychydig iawn o hanes y gweinidog hwn fel rhai o'i ragflaenwyr sydd ar gael. Dywedir ei fod yn bregethwr cymeradwy, ond ymadawodd â'r eglwysi oherwydd rhyw anghydfod rhyngddo ef a'r aelodau. Ni cheir gwybodaeth bendant pa un ai ym 1814 neu 1816 y bu hynny, ond iddo dreulio gweddill ei oes yn ardal Pisgah, sir Aberteifi. Ni fu'n weinidog ar unrhyw eglwys yn y cyfnod hwnnw. Pregethai mewn gwahanol gapeli yn ôl y galw.

Wedi iddo ymadael ag Eglwysi Esgairdawe a Ffaldybrenin, ni chafwyd olynydd iddo hyd 1818. Ceir hanes fod y Parchedig Phylip Maurice, o Langybi, wedi cymryd gofal ohonynt. Eto i gyd, ni cheir un cofnod wedi'i lofnodi ganddo yng Nghofrestr yr Eglwysi.

**Rhys Jones**

Ganed Rhys, neu Rees Jones yn ardal Troedrhiwdalar ym 1783. Ymaelododd ym Meilihalog, plwy Gwenddwr, Brycheiniog. Fe'i derbyniwyd gan y Parchedig D. Williams, Llanwrtyd. Yna, dychwelodd i ardal ei febyd ac ymaelodi yn Nhroedrhiwdalar, gan ddechrau pregethu yno ym 1809. Ni cheir gwybodaeth a fu'n dilyn cwrs mewn coleg ai peidio. Beth bynnag, bu'n bregethwr cynorthwyol am naw mlynedd. Yna, derbyniodd alwad o Esgairdawe a Ffaldybrenin. Dyma'r cofnod a welir ynglŷn â'i urddo, a hynny am y tro cyntaf yn Ffaldybrenin:

> Rees Jones was ordained at Ffaldybrenin on the 2nd of July 1818. The following ministers attended his ordination:
>
> Peter Jenkins Brychgoed<br>
> Tho*s* Phillips Neuaddlwyd<br>
> Thomas Jones Saron<br>
> Thomas Griffiths Hawen<br>
> Lewis Powell Mynyddbach<br>
> David Williams Llanwrtyd<br>
> David Williams Builth<br>
> Daniel Jones Crygybar<br>
> Jenkin Morgan Pentretygwyn<br>
> James Silvanus Capel Erw<br>
> Jn*o* D. Jermy Llandovery<br>
> Daniel Thomas Penrhiwgaled
>
> Daniel Jones opened the meeting, Thomas Phillips delivered the introductory discourse, Peter Jenkins received the confession, Jenkin Morgan prayed the ordination prayer. David Williams Llanwrtyd gave the charge to the Minister from 2. Timothy 4ch. 5 verse, and David Williams Builth gave the charge to the church from 1. Thessal. 5ch. and 13th verse.[18]

Dyma destun y Siars i'r gweinidog:

> Eithr gwylia di ym mhob peth, dioddef adfyd, gwna waith efengylwr, cyflawna dy weinidogaeth.

Dyma destun y Siars i'r eglwysi:

> A gwneuthur cyfrif mawr ohonynt mewn cariad, er mwyn eu gwaith. Byddwch dangnefeddus yn eich plith eich hunain.

O gyfnod y Parchedig Rhys Jones ymlaen, yn Ffaldybrenin yr ordeiniwyd pob gweinidog, beth bynnag a achosodd y newid.

Wedi'r ordeinio ym 1818, derbyniwyd pum cant a phedwar o aelodau i gynulleidfaoedd Esgairdawe a Ffaldybrenin, hyd y flwyddyn 1856. Gwelwyd cynnydd dirfawr yn nifer yr aelodau

ac fe brofwyd grym sawl diwygiad. Enw'r aelod cyntaf a dderbyniodd oedd:

1. William Morgan, Llwyn-owen.

Dyma'r olaf:

504. February 3rd. 1856. Admitted to Church Communion at Esgairdawe – Sarah, wife of David Jones, Tredomen.

Dyma'r ddwy fferm agosaf at ei gilydd, ar y ffordd i'r Hen Dŷ Cwrdd.

Ceir cofnodion yn y Gofrestr am fil, un cant a chwech o fedyddiadau a weinyddwyd gan Rhys Jones rhwng Awst 30ain, 1818 a Rhagfyr 7fed, 1857. Dyma'i gofnod cyntaf:

1. Samuel the son of David Evans and Elizabeth his wife in the parish of Llanfihangel rhôscorn was baptized August 30th 1818. By me Rees Jones.

Aeth blynyddoedd lawer heibio ond daliodd i gofnodi'n fanwl. Dyma'r olaf:

1106. Elizabeth daughter of David Thomas by Mary his wife of Parkmawr parish of Cayo was born October 15 – and baptized December 7 – 1857. By me Rees Jones.

Gellir canfod yn eglur fod Rhys Jones yn cadw cofnodion manwl o fedyddiadau, derbyn aelodau a chladdedigaethau. Yn wahanol i'w gynweinidogion, fe roddai enwau'r lleoedd a'r plwyfi, yn ogystal â'r enwau personol. Roedd cadw cyfrifon manwl o gyfraniadau a threuliau'r eglwys yn gamp yr adeg honno hefyd.

Digwyddodd cyfnewidiadau pwysig yn hanes y ddwy eglwys yng nghyfnod Rhys Jones. Ym 1834, symudodd Eglwys Ffaldybrenin o'r Hendy i'r capel presennol. Yn ei ddyddiau ef hefyd y codwyd capel presennol Esgairdawe, sef ym 1844. Nid oes hanes am ei adeiladu nac am y dydd yr agorwyd yr adeilad. Ni wyddom chwaith paham y symudwyd o'r Hen Dŷ Cwrdd. Dichon fod hwnnw wedi dechrau dadfeilio, oherwydd bu'n fan cyfarfod i'r Saint am bedwar ugain ac wyth o flynyddoedd. Cynhaliwyd ysgol ddyddiol yno hefyd, ond dywedir bod adeilad arall wedi ei godi gerllaw ar gyfer addysgu plant yr ardal oddi ar y flwyddyn 1834.

Nid oedd yr hen gapeli yn adeiladau deniadol. Roedd eu

blerwch yn ddihareb, ond pa mor gyntefig bynnag oeddent, y capeli oedd canolbwynt y bywyd newydd. Defnyddid canhwyllau brwyn i oleuo'r hen adeilad. Roeddent yn beryglus ac anaddas. Cynhelid Ysgol Sul yn ystod y dydd er mwyn diogelwch y plant a hwylustod darllen yr hen. Ceid pregethu o dŷ i dŷ hefyd, yn arbennig ar bob achlysur teuluol – pregethu wrth fedyddio, priodi, gwylnos ac angladd.

Clywsom ein cyndeidiau yn dweud am falchder eu tadau a'u mamau wrth sôn am y symud o'r Hen Dŷ Cwrdd i'r Tŷ newydd. Cychwynnwyd yr orymdaith gref a selog o ymyl yr hen Addoldy. Gweddïwyd yn aml yno, collwyd llawer deigryn, profwyd agosatrwydd byd arall droeon, ond, daeth awr yr ymddatod – awr y fenter fwy. Haws dychmygu na disgrifio'u teimladau. Cariwyd dodrefn y Tŷ gan rai o'r aelodau a mud oedd y mwyafrif. Blaenorai'r gweinidog – un naturiol ddigalon ydoedd, yn ôl yr hanes, ond diau fod rhywrai o hil Asaff yno, a phan ddaethant i olwg y capel newydd, dechreuasant orfoleddu. Tybed a oedd geiriau un o emynau'r Perganiedydd o Banty-celyn yn dod i'w cof. Beth a ganent ar yr awr bwysig hon yn eu hanes? Cyfnod dysgu emynau ar gof ydoedd yn bennaf, oherwydd nid oedd llyfrau emynau mor boblogaidd ag ydynt heddiw. Teg yw mentro dychmygu bod yr emyn hwn ar wefusau'r mwyafrif – Emyn 562 yn y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd:

> Gosod Babell yng ngwlad Gosen,
> Tyred, Arglwydd, yno'th hun;
> Disgyn o'r uchelder golau,
> Gwna Dy drigfan gyda dyn;
> Trig yn Seion, aros yno
> Lle mae'r llwythau'n dod ynghyd.
> Byth na 'mad oddi wrth Dy bobol
> Nes yn ulw elo'r byd.

Tua chant a deugain oedd rhif yr aelodau yn ystod rhai blynyddoedd o weinidogaeth y Parchedig Rhys Jones. Roedd eu cyfraniadau yn y capel newydd yn weddol gyfartal, heb le gwag ar gyfer yr un aelod. Cyflog fechan a gâi'r gweinidog ac ni thelid ond £1·8·0 mewn blwyddyn am y weinidogaeth achlysurol. Telid £1·12·3 am win cymundeb – gwin meddwol a ddefnyddid yr adeg hon. Nid oedd cwpanau unigol yn bod. Cymerai pob aelod ei lymaid o gwpan mawr. Bob yn ail fis y

ceid cymundeb yn yr eglwysi hyd at gyfnod Rhys Jones. Un eglwys y cyfrifid y ddwy.

Yn amser y gweinidog hwn y sefydlwyd Ysgolion Sul yn y ddwy eglwys. Byddai'r aelodau yn cwrdd â'i gilydd i holi ac ateb y pwnc. Cymerai'r werin bobl ddiddordeb mewn llenydda a llenyddiaeth. Darllenai nifer ohonynt gylchgronau crefyddol, megis y *Drysorfa* a'r *Diwygiwr*. Yn ôl haneswyr, mae'n ffaith ddiddorol mai godre sir Aberteifi a phen ucha sir Gaerfyrddin oedd yn derbyn y nifer mwyaf o gylchgronau yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Cymerai'r trigolion ddiddordeb mewn addysg hefyd. Bu'r ardaloedd hyn yn rhoi tystiolaeth fanwl o flaen y Comisiwn, a bu'r Dr. D. Rowland Williams, is-Brifathro yng Ngholeg Dewi Sant Llambed, yn dadlau dros gael Addysg Gymraeg i'r plant ym 1847. Clywn lawer heddiw am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg ond nid peth newydd ydyw, mae'n amlwg. Dywedir i Gwilym Hiraethog ddarlithio yma ym 1854. Roedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Lerpwl ar y pryd. Dan ei olygyddiaeth ef y dechreuwyd cyhoeddi *Yr Amserau*, a unwyd â'r *Faner* ym 1859. Bu'r *Amserau* yn fodd i gyffroi'r Cymry o blaid rhyddid crefyddol a gwleidyddol. Felly, nid rhywbeth newydd yw teimlo diddordeb ym mhynciau pwysig a llosg y dydd chwaith.

Mab i'r Parchedig Rhys Jones oedd Kilsby, sef y Parchedig Rhys Kilsby Jones (1813-89), un o gymeriadau mwyaf gwreiddiol ei ddydd. Daeth i enwogrwydd yn arbennig yn ystod un mlynedd ar hugain ei weinidogaeth gyda'r Annibynwyr yn Llandrindod. Cyfrifid ef fel pregethwr dawnus, ysgrifennwr, siaradwr ffraeth a chymeriad hynod drwyadl.

Dechreuwyd addoli mewn hen Fragdy yn Llambed yn y flwyddyn 1831, ac ym 1837 urddwyd y Parchedig Richard Owen yn weinidog yno ynghyd â Llanfair ac Ebeneser, Llangybi. Fe'u gadawodd ym 1841 a bu'r Parchedig Rhys Jones yn gofalu am y gorlan fechan yn y Bragdy am gyfnod.

Ceir hanes am Gyfarfod Chwarter yng Nghapel Mydroilyn ar y 3ydd a'r 4ydd o Fawrth, 1852:

> Methodd y gweinidogion a chyfarfod yn gryno ac amserol yno i gynnal cynhadledd oherwydd claddedigaeth Mrs. Evans, gwraig gweinidog y lle. Yna y prynhawn cyntaf a thrannoeth bu'r Parchedig R. Jones, Esgerdawe ac amryw eraill yn pregethu yno.[19]